

CYNGOR BRO MORGANNWG
(CYFYNGIAD CYFLYMDER 20MYA PENTREF LLANBEDR-Y-FRO)
GORCHYMYN TRAFFIG ARBROFOL (DIWYGIO) (RHIF 1) 2021

HYSBYSIR trwy hyn y gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, ym mis 7 Medi 2021, Orchymyn Traffig Arbrofol (Diwygio) dan Adrannau 1, 2, 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill ar ôl ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu yn unol ag Atodiad 9 Deddf 1984.

Bydd effaith y Gorchymyn Traffig Arbrofol, a fydd yn weithredol ym mis 13 Medi 2021, neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd priodol ar waith, p'un bynnag sydd hwyraf, wedi'i nodi yn yr Atodlenni isod ac yn para drwy gydol cyfnod y Gorchymyn.

Y rheswm dros wneud Gorchymyn Traffig Arbrofol yw asesu effaith y cyfyngiadau cyflymder am gyfnod prawf cyn ystyried a ddylid gwneud darpariaethau'r Gorchymyn Traffig Arbrofol yn barhaol. Gellir gweld manylion llawn a chynlluniau'r cynigion ar wefan y Cyngor yn

www.bromorgannwg.gov.uk neu yn nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau yng Ngwenfô.

Mae modd i'r darpariaethau arbrofol barhau mewn grym am gyfnod prawf o hyd at 18 mis cyn y rhoddir ystyriaeth i Orchymyn parhaol, o fewn 6 mis i'r Gorchymyn Traffig Arbrofol ddod i rym. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad sydd gennych i'r cynnig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf: IF942) yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk a rhaid i hwn gynnwys unrhyw resymau dros eich gwrthwynebiad. Gall unrhyw berson wrthwynebu gwneud Gorchymyn parhaol.

Gwahoddir unrhyw sylwadau sy'n cefnogi'r Gorchymyn Traffig Arbrofol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gall unrhyw unigolyn sydd am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Traffig Arbrofol neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw o fewn bwerau'r Ddeddf alluogi berthnasol, neu na chydymffurfiwyd â gofynion unrhyw Ddeddf alluogi debyg, neu unrhyw reoliadau perthnasol, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn Traffig Arbrofol, wneud cais i'r perwyl hwn i'r Uchel Lys.

ATODLEN 1

Dirymu'r Gorchymynion Rheoli Traffig canlynol yn eu cyfanrwydd:

Gorchymyn Traffig Arbrofol Cyngor Bro Morgannwg (Cyfyngiad Cyflymder 20mya a 30mya Pentref Llanbedr-y-Fro) 2021

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Heol Fawr, Llanbedr-y-Fro) (Estyn Cyfyngiad Cyflymder 30 mya) 2001

ATODLEN 2

Cyfyngiad Cyflymder 20 mya

Ni chaiff unrhyw un beri na chaniatáu i gerbyd modur deithio ar gyflymder sy'n fwy na 20 mya yn y lleoliad a nodir yn Atodlen 3 isod.

ATODLEN 3

Logwood Lane (Heol Fawr)

O bwynt rhyw 19 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganol y gyffordd â Trehedyn Lane, am tua 1,584 metr, i'r gogledd-ddwyrain ac yn gyffiniol â'r cyfyngiad terfyn cyflymder cenedlaethol presennol, ger yr eiddo a elwir Fferm Ty-Draw.

Bydd y Ffyrdd Pengaead, Ffyrdd a Strydoedd canlynol yn destun y Gorchymyn ar eu hyd cyfan:

Ffordd-yr-Eglwys, Ael-y-Bryn, Heol Llanbedr, Bryn Le Sor a Tai Llanbedr

Dyddiedig 10 Medi 2021.
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweladwy a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA.